# SL(6)011 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2021

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 (y Prif Reoliadau) fel nad yw'r gwaharddiad ar drefnu digwyddiadau ym mharagraff 4 o Atodlen 1 i'r Prif Reoliadau yn gymwys mewn perthynas â digwyddiadau penodedig.

Er enghraifft, nid yw'r gwaharddiad yn gymwys i ddigwyddiad a gaiff ei gynnal yn yr awyr agored mewn safle rheoledig (heblaw am lety gwyliau neu lety teithio) naill ai: (i) lle nad oes mwy na 30 o bobl yn bresennol, neu (ii) pan fo’r holl bobl sy’n bresennol yn aelodau o'r un aelwyd. (Nid yw plant o dan 11 mlwydd oed, gofalwyr pobl sy'n bresennol yn y digwyddiad, pobl sy'n gweithio yn y digwyddiad na phobl sy'n darparu gwasanaethau gwirfoddol yn y digwyddiad yn cyfrif o ran y terfyn o 30 o bobl.)

## Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo’r Senedd (i) wedi’i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y’u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd**

Nodwn gyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyriad posibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Er bod y prif Reoliadau, fel y’u diwygir gan y Rheoliadau hyn, yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a’r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau*

*Dynol, mae'r Llywodraeth o'r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaenu clefydau heintus a/neu fod hawl i wneud yr ymyriad ar y sail ei fod yn ceisio cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur. Ceir rhagor o wybodaeth am gyffwrdd â hawliau yn y [Memorandwm Esboniadol] i'r prif Reoliadau."*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn na chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> "*O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd cyhoeddus brys, nid oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.*"

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth Dros Dro**
**9 Mehefin 2021**